

RHAGLEN DIWYGIO'R GWASANAETHAU DEINTYDDOL CYFFREDINOL (GDC)

Cwestiynau Cyffredin – Ionawr 2023

Ar sail y digwyddiad ymgysylltu diweddar, ac wrth i ni barhau i wneud cynnydd â'r Rhaglen ehangach i Ddiwygio'r GDC, mae'r cwestiynau cyffredin hyn yn anelu at ateb y cwestiynau ychwanegol a ofynnwyd dros yr wythnosau diwethaf.

Y digwyddiad ymgysylltu a deunydd cyfathrebu'r rhaglen

Pam wnaeth y digwyddiad ymgysylltu diweddar ganolbwyntio ar faterion diwygio ehangach a darparu ychydig iawn o wybodaeth neu ymgysylltiad ar ddiwygio'r contract?

Dyluniwyd y digwyddiadau ymgysylltu i roi diweddariad ar y materion sy'n effeithio ar y proffesiwn yn ehangach, i ddiweddarau ynghylch newidiadau pwysig o fewn y GIG ac i hysbysu ynghylch yr heriau systemau o fewn gofal iechyd. Mae diwygio'r contract yn rhan o'r sgysiau ehangach am ddiwygio'r system, a chofnodwyd barn y proffesiwn mewn digwyddiadau ymgysylltu a ffrydiau gwaith diwygio blaenorol. Mae'r trafodaethau am yr amrywiaeth yn y contract yn mynd rhagddynt rhwng Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, y Pwyllgorau Deintyddol Lleol, y Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru.

Pam nad yw Llywodraeth Cymru'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â ni yn effeithiol ynghylch y rhaglen ddiwygio?

Defnyddiwyd digwyddiadau ymgysylltu, gweithdai, Cwestiynau Cyffredin, gwefan Gofal Sylfaenol Un a diweddariadau chwarterol ar y rhaglen i gyfathrebu ac ymgysylltu ynghylch y rhaglen ddiwygio dros y 12 mis diwethaf. Mae Ffrwd Gwaith 4, Pwyllgor Deintyddol Cymru, ymgysylltiad y Byrddau Iechyd a chyfarfodydd y Pwyllgorau Deintyddol Lleol wedi galluogi ymgysylltiad ychwanegol gyda gwasanaethau deintyddol a chyfathrebwyd â'r cyhoedd drwy'r cyfryngau hefyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y newidiadau o fewn deintyddiaeth yng Nghymru.

Bu Prifysgol Bangor hefyd yn cynnal cyfweiliadau â rhanddeiliaid, gan gynnwys aelodau timau deintyddol, sydd wedi rhoi cyfle iddynt ymgysylltu a rhoi adborth.

Cafodd dolen i ffurflen ei chynnwys yn y diweddariad ym mis Ionawr 2023 ar y rhaglen i ofyn sut y byddai practisau'n hoffi i ni gyfathrebu ac ymgysylltu â nhw.

ACORN

A fydd ACORN a gwaith ataliol yn cael eu cadw yn y contract deintyddol newydd?

Byddant. Yr egwyddor sylfaenol o fewn yr Arolwg Steele Annibynnol yn 2009 oedd ail-ganolbwyntio gofal deintyddol ar iechyd y geg drwy atal, yn hytrach na darparu gofal adferol yn unig. Agwedd glinigol ar ddiwygio'r contract oedd y ffocws ar lwybr clinigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar sail asesiad risg iechyd y geg. Canlyniad yr asesiad hwn yw darparu ymyriadau atal ac adfer dan arweiniad, gan bennu amserlenni ar sail risg ar gyfer adolygiadau iechyd y geg dilynol. Cyflwynwyd ACORN a'r Egwyddorion Gofal i gefnogi'r amcan hwnnw.

Cwblhau asesiad ACORN – cyfeirir at glaf hanesyddol fel rhywun a welwyd yn ystod y flwyddyn ariannol. Rwy'n cymryd bod hyn yn golygu 'yn y 12 mis diwethaf' fel y cadarnhawyd yn flaenorol?

Ydy.

Os gwelir claf yn y flwyddyn ariannol ac mae eisoes wedi cael asesiad ACORN yn y cyfnod o 12 mis cyn hynny, gellid ystyried nad oes angen asesiad ACORN newydd am 6 mis arall. Gallai'r claf wedyn fethu â dychwelyd, heb fod bai o gwbl ar y deintydd sy'n ei drin.

A fydd y deintydd yn cael ei gredydu â chlaf hanesyddol os nad oes unrhyw asesiad ACORN wedi'i gynnal? Byddai hyn fel arall yn golygu ailadrodd gwaith papur yn ddiangen, ac mae'n groes i'r egwyddor "Ei wneud unwaith a'i wneud yn dda".

Gallwn gadarnhau y bydd asesiad ACORN yn cael ei gynnal unwaith y flwyddyn (12 mis treigl). Deellir na fydd pob claf hanesyddol a welir mewn blwyddyn ariannol benodol yn cael asesiad ACORN o fewn yr un flwyddyn ariannol ond, cyhyd â'u bod wedi cael asesiad ACORN yn ystod y 12 mis diwethaf, byddant yn cyfrif fel claf hanesyddol os bydd triniaeth wedi'i bandio yn cael ei darparu.

Os nad yw practisau wedi llenwi'r asesiad ACORN, ydy hynny'n golygu eu bod yn torri'r contract?

Mae'r asesiad ACORN yn becyn cymorth syml sy'n cefnogi'r timau deintyddol i gynnal asesiad o risgiau ac anghenion iechyd y geg (ei wneud yn dda unwaith y flwyddyn). Argymhellir asesiad ACORN ar gyfer practisau diwygio a rhai sy'n rhan o'r system Uned o Weithgaredd Deintyddol (UDA) fel bod ffactorau risg ac anghenion y cleifion wedi'u deall a'u trafod a bod y cynlluniau gofal atal a deintyddol ar gyfer cleifion yn adlewyrchu'r risgiau a'r anghenion hynny. Felly, ni ddylid ystyried asesiad o risg ac anghenion fel ymarfer 'ticio blychau' neu 'lenwi ffurflen'.

Rhif GIG

Pa mor ymarferol yw hi i bractisau gael Rhif GIG gan y claf? A fydd gohebiaeth yn cael ei hanfon at gleifion, i gefnogi practisau o ran sicrhau bod y rhif ar gael i'w gasglu?

Gall Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ganfod cyfran sylweddol o rifau GIG yn awtomatig. Pan nad ydynt yn gallu cael mynediad at y rhif, dylid gofyn i'r claf mewn apwyntiad. Gall cleifion gael mynediad at eu rhif GIG drwy eu meddyg teulu, llythyrau apwyntiad ysbytai, cerdyn meddygol neu gall y claf wneud cais am eu rhif GIG gan <https://www.nhs.uk/nhs-services/online-services/find-nhs-number/>

Pryd fydd y practisau'n dod yn ymwybodol o'r cam i gipio 70% o'r data a sut y bydd y 30% yn cael ei nodi a'i gyfathrebu i'r practisau?

Pan fydd FP17W yn cael ei brosesu a'i drefnu, bydd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG yn edrych am rif GIG y claf. Bydd y rhif GIG yn cael ei drosglwyddo i System Reoli Practis Deintyddol y contract (DPMS) ar y ffeil 'Monthly Schedule'.

Bydd y cofnod o'r rhif GIG ar gael ar gyfer cyflwyniadau yn y dyfodol. Ni fydd y cipio 70% o'r data ar gael ar go-live, ond bydd cydweithwyr yn yr Awdurdod yn gallu cyfathrebu'r cynnydd ar y gwaith o gipio rhifau GIG yn eu Bwletin Deintyddol misol.

Y Gweithlu

Mae materion y gweithlu'n ei gwneud yn anodd i bractisau fodloni'r disgwyliadau a nodir yn yr amrywiadau i gytundebau. Pa atebion ar gyfer y gweithlu sydd ar gael i sicrhau y bydd yn gallu bodloni disgwyliadau'r contract newydd o fis Ebrill 2024?

Mae ffactorau amrywiol sy'n gysylltiedig â chadw staff (gan gynnwys tâl). Mae cymysgedd o sgiliau, y defnydd o'r holl dîm deintyddol ac integreiddio gwasanaethau wedi'u cynnwys yn y trafodaethau ar ddiwygio'r system.

Mae'n ymddangos bod cael cymysgedd o sgiliau'n creu mwy o heriau nag atebion. A oes unrhyw dystiolaeth bod hyn yn gweithio?

Mae corff sylweddol o dystiolaeth i gefnogi'r defnydd o gymysgedd o sgiliau i ddarparu gwasanaeth deintyddol o ran darparu gofal diogel ac effeithiol; cynyddu hyblygrwydd y gwasanaethau a bodlonrwydd y cleifion.^{1,2,3,4} O fewn y GIG, dangoswyd bod y cywirdeb diagnostic ar gyfer pydredd dannedd a chlefyd periodontal yn gymaradwy â chywirdeb ymarferwyr deintyddol, fel yng nghyd-destun adnabod canser y geg.^{4,5} Yn yr astudiaeth fwyaf diweddar a gynhaliwyd o fewn practisau deintyddol y GIG, ni chanfuwyd unrhyw wahaniaethau yn iechyd y geg y cleifion a fynychodd glinigau dan arweiniad therapyddion deintyddol, o gymharu ag ymarferwyr deintyddol cyffredinol.⁶ Mewn astudiaeth ddiweddar arall, pan oedd amodau'r contract yn ffafriol, gellid defnyddio cymysgedd o sgiliau i ddarparu model gofal ataliol cryf o fewn y GIG gan ddefnyddio clinigau dan arweinyddiaeth niysys.

A fydd pensiynau a nifer y perfformwyr yn cael eu hystyried ar gyfer therapyddion gyda'r contract newydd?

Mae hyn yn cael ei gynnwys o fewn y trafodaethau ar ddiwygio'r system, y bydd angen newidiadau deddfwriaethol pellach y tu allan i ddiwygio'r contract ar ei gyfer.

A fydd therapyddion yn gallu agor cwrs o driniaeth o dan y contract deintyddol newydd?

Byddant.

A fydd y contract deintyddol newydd yn ein hysbysu ynghylch sut i dalu am staff cyswllt a staff arall yn y practis?

Na fydd. Fel contractwr annibynnol, cyfrifoldeb deiliad contract y GIG fydd denu a chynnig telerau ac amodau priodol, gan gynnwys tâl/cyflog i sicrhau bod gofynion y contract ar gyfer darparu gwasanaeth deintyddol yn cael eu bodloni.

Data

Pryd fydd y Byrddau Iechyd yn gallu gweld y data cyfan ar gyfer 2022/23, i'w galluogi i gynllunio'n ariannol?

Bydd y Byrddau Iechyd yn gallu gweld y data cyfan ar gyfer 2022/23 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (ar ôl cwblhau mis amserlen Mehefin). Mae eDEN yn cael ei ddiweddarau'n fisol. Mae gan bractisau ddau fis o'r dyddiad cwblhau i gyflwyno eu ceisiadau. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae hyn yn caniatáu i'r ceisiadau o flwyddyn ariannol flaenorol gael eu cyflwyno nes diwedd mis Mai ac ni fydd y data ceisiadau llawn ar gael nes ar ôl hynny i'r Awdurdod gasglu data diwedd y flwyddyn.

"Gallai'r adroddiad data terfynol ar ddiwedd y flwyddyn newid y ffigur hwn ond, ar sail y rhagolwg presennol, dyma'r amcangyfrif gorau hyd yn hyn." Os oes angen gwneud newidiadau, a fydd hyn yn cael ei wneud yn erbyn metrigau/gofynion 23/24 neu a yw'n bosibl y bydd yn rhaid i'r Byrddau Iechyd ad-dalu'r arian i gcontractwyr?

Dylai'r Byrddau Iechyd fod â data'r flwyddyn gyfan cyn gwneud unrhyw benderfyniadau am sancsiynau ariannol.

¹ Brocklehurst P, Mertz B, Jerković-Čosić K, Littlewood A, Tickle M, 'Direct access to midlevel dental providers: an evidence synthesis', Public Health Dent 2014;74:326–35, <https://doi.org/10.1111/jphd.12062>

² Dyer TA, Brocklehurst PR, Glenny AM, Davies L, Tickle M, Issac A, Robinson PG, 'Dental auxiliaries for dental care traditionally provided by dentists', Cochrane Database Syst Rev 2014;8:CD010076, <https://doi.org/10.1002/14651858.CD010076.pub2>

³ Barnes E, Bullock A, Chestnutt IG, Cowpe J, Moons K, Warren W, 'Dental therapists in general dental practice. A literature review and case-study analysis to determine what works, why, how and in what circumstances', Eur J Dent Educ 2020;24:109–20, <https://doi.org/10.1111/eje.12474>

⁴ Macey R, Glenny A, Walsh T, Tickle M, Worthington H, Ashley J, Brocklehurst P, 'The efficacy of screening for common dental diseases by hygiene-therapists: a diagnostic test accuracy study', J Dent Res 2015;94 (Atodiad 3):70–8, <https://doi.org/10.1177/0022034514567335>

⁵ Brocklehurst PR, Pemberton MN, Macey R, Cotton C, Walsh T, Lewis M, 'Comparative accuracy of different members of the dental team in detecting malignant and non-malignant oral lesions', Br Dent J 2015;218:525–9, <https://doi.org/10.1038/sj.bdj.2015.344>

⁶ Brocklehurst PR, Hoare Z, Woods C, Williams L, Brand A, Shen J, et al., 'Dental therapists compared with general dental practitioners for undertaking check-ups in low-risk patients: pilot RCT with realist evaluation', Health Serv Deliv Res 2021;9(3).

Clystyrau

Beth yw diben dysgu am glystyrau ar hyn o bryd, os oes amser a chapasiti cyfyngedig i wneud y gwaith dyddiol?

Mae clystyrau'n rhan o'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol. Mae hyn yn darparu cyllid i'r Byrddau Iechyd fuddsoddi mewn cynlluniau gofal sylfaenol, sydd wedi'u goruchwylio gan y Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol a'r Bwrdd Gofal Sylfaenol Cenedlaethol.

Bu'r clystyrau'n bodoli am dros ddegawd, gyda'r bwriad o ddwyn ynghyd yr holl wasanaethau iechyd a gofal lleol ar draws ardal ddaearyddol wedi'i diffinio. Bydd gweithio mewn clystyrau'n sicrhau cydgysylltiad y gofal a fydd yn hyrwyddo lles unigolion a chymunedau. Bydd y lefel uwch hwn o integreiddio yn dod â mwy o wasanaethau yn agosach at adref, ar sail angen y boblogaeth, gan wella gweithio amlbroffesiwn a rhoi mwy o lais i wasanaethau sylfaenol a chymunedol wrth ddarparu gwasanaethau lleol. Ar sail y rhyngweithio amlgyfeiriad rhwng iechyd y geg ac iechyd systemig, mae'n gynyddol bwysig bod gwasanaethau deintyddol wedi'u halinio ag angen y boblogaeth.

Mae cyfleoedd wedi'u hariannu i unigolion a phractisau ymwneud â chlystyrau a mentrau cydweithredol lleol.

Ceir rhagor o wybodaeth ar safle Gofal Sylfaenol Un: <https://primarycareone.nhs.wales/files/strategic-programme/acd-what-does-it-mean-pdf/>

Uned o weithgaredd deintyddol (UDA) a diwygio'r contract

"Am bob 1% o gynnydd uwchlaw cyfartaledd canolrifol y Byrddau Iechyd ar gyfer asesiad ACORN coch gyda 4 neu fwy o ymyriadau, gellir gostwng y targed cleifion blynyddol (cleifion hanesyddol a chleifion newydd) 2%." A yw hyn yn berthnasol i bractisau sy'n rhan o ddiwygio'r contract ac nid practisau sy'n rhan o'r system UDA?

Er y bydd practisau UDA yn cael budd o gynyddu eu proffil cleifion gan ddefnyddio'r pecyn cymorth ACORN, mae'r gwaith lliniaru'n berthnasol i'r practisau diwygio yn unig.

Ar gyfer practisau UDA, y targed disgwylidig yw 95% - a yw'r Byrddau Iechyd yn cymhwyso 5% yn ychwanegol fel rhan o'r Rheoliadau, fel bod y targed yn dod yn 90%?

Mae'r terfyn goddefiant o 5% yn y rheoliadau'n ymwneud â'r hyblygrwydd i gario drosodd tanberfformio neu orberfformiad. Felly, byddai caniatâd i hyd at 5% o'r targed UDA newydd o 95% gael ei gario drosodd neu, os oes yn well gan ddeiliad y contract, gallent ei dalu'n ôl.

Targed UDA - I bractisau gyda chontract UDA gyda goddefiad ychwanegol o 5%, a ddefnyddir y gyfradd UDA uwch neu'r gyfradd UDA wreiddiol i ddiwygio contractau yn ystod yr amser hwn?

Mae'r 95% yn drefniant dros dro i adlewyrchu'r newidiadau Atal a Rheoli Haint ar gyfer y rheini sy'n aros ar gontract UDA 2006. Dylid defnyddio'r gwerth UDA gwreiddiol gan gynnwys unrhyw godiad gan y Corff Adolygu Meddygon a Deintyddion i gyfrifo gwerth ariannol unrhyw danberfformio.

Opsiwn i optio i mewn – Erbyn pryd y bydd yn rhaid i'r practisau gadarnhau? A fydd Hysbysiad Amrywio Contract newydd ar gyfer 23/24? Nid yw'r Byrddau Iechyd wedi derbyn yr Hysbysiad wedi'i ddiwygio o hyd ar gyfer 22/23.

Trafodir hyn gyda thimau'r Byrddau Iechyd yn y cyfarfod rheolaidd â Llywodraeth Cymru. Mae'r Hysbysiad ar gyfer 23/24 yn cael ei baratoi gan dîm cyfreithiol Llywodraeth Cymru a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Byrddau erbyn canol mis Mawrth.

Ffurflenni safonol

A fydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno ffurflen safonol ar gyfer Byrddau Iechyd i ganfod astudiaethau achos llwyddiannus yn eu hardaloedd a'u rhannu â Byrddau Iechyd eraill er mwyn dysgu ohonynt?

Mae astudiaeth achos yn ffordd o rannu'r hyn sydd wedi gweithio mewn practis a gallai fod yn ffordd ddefnyddiol o ddysgu i dîm rheoli Bwrdd Iechyd, sydd yna'n gallu rhannu â phractisau eraill. Mae pob astudiaeth achos yn unigryw ac fe'i cofnodir yn well fel y'i disgrifir gan y practis/tîm deintyddol. O'r herwydd, nid yw templed yn addas ar gyfer y math hwn o astudiaeth achos a rhannu gwybodaeth.

Pe byddai Byrddau Iechyd a practisau'n hoffi rhannu astudiaethau achos llwyddiannus, anfonwch eich storïau at dentalpublichealth@wales.nhs.uk a gellir rhannu'r rhain ar [Gofal Sylfaenol Un](#). Peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth gyfrinachol.

A fydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ffurflen safonol ar gyfer y Byrddau Iechyd i gofnodi lefelau staffio, i nodi'r contractau sydd â phroblemau amlwg o ran y gweithlu? Ar ba bwynt y mae'r practisau'n adrodd eu llinell sylfaen - cyn C19 neu pan fydd y gwasanaethau wedi aildechrau, o gymharu â nawr? Hefyd, a yw'r Byrddau Iechyd yn ystyried nifer maint y gostyngiad yn y gweithlu neu ar sail sesiynau?

Rydym wedi lansio System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru ([yma](#)) a bydd yr holl ddata hyn yn cael eu casglu drwy'r pecyn cymorth hwnnw. Mae gohebiaeth ar hyn wedi'i gyflwyno i bractisau deintyddol a byddant yn gallu dechrau ychwanegu data i'r system o fis Mawrth.

A fydd ffurflen gasglu safonol yn cael ei rhannu â'r Byrddau Iechyd fel y gallwn gasglu a chymharu nifer yr apwyntiadau na fynychwyd yn yr un ffordd ledled Cymru?

Mae sawl ffactor sy'n peri i glaf fethu â mynychu apwyntiad. Rydym yn cyfathrebu â'r cyhoedd i amlygu goblygiadau methu apwyntiadau. Ni fydd ffurflen safonol ar gael i ddarparu'r wybodaeth hon. Fodd bynnag, rydym yn archwilio'r opsiynau digidol posibl i gyfathrebu â'r cyhoedd a chleifion fel rhan o'r broses ehangach o ddiwygio'r system.

A fydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno ffurflen safonol i gyfrifo'r adfachiad? A yw'r cyfrifiad adfer yn seiliedig ar y gwerth contract blynyddol cyn y Corff Adolygu Meddygon a Deintyddion neu'r gwerth contract blynyddol presennol?

Y Byrddau Iechyd sy'n gyfrifol am reoli contractau. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau diwedd y flwyddyn i gefnogi'r Byrddau Iechyd yn y broses hon.

Apwyntiadau na fynychwyd

Sut y mae disgwyl i 'Attend Anywhere' gynorthwyo gyda chyfraddau'r apwyntiadau na fynychwyd? A all ymgynghoriad o bell ddenu metrig, i osgoi'r angen am amser ychwanegol ochr yn ochr â'r pwysau gwaith presennol?

Mae gennym dystiolaeth gynnar o bractis diwygio sy'n defnyddio 'Attend Anywhere' ac sy'n arddangos gostyngiad sylweddol yng nghyfraddau'r apwyntiadau na fynychwyd. Mae defnyddio 'Attend Anywhere' yn golygu y gellir cynnwys gwybodaeth o flaen llaw yn ACORN, gellir diweddarau hanes meddygol a gellir cael gafael ar ddarlun mwy cywir o'r broblem y mae'r claf yn ei chyflwyno. Cynigwyd mynediad i 'Attend Anywhere' i'r holl bractisau yn ystod y pandemig ac mae'n parhau i fod ar gael.

Mae lleihau'r amser teithio ac effaith teithio ar yr amgylchedd oll yn rhan o'r strategaeth gynaliadwyedd ehangach. Trafodwyd a ddylid neilltuo metrig yn erbyn ymgynghoriadau o bell o fewn ffrydiau gwaith y rhaglen ddiwygio a disgwylir iddo gael ei archwilio ymhellach o fewn y broses ehangach o ddiwygio'r system.

Os bwriedir i'r wybodaeth am apwyntiadau na fynychwyd gael ei chasglu ar sail Cymru gyfan, a fydd Llywodraeth Cymru'n darparu templed cenedlaethol, diffiniad o beth yw apwyntiad na fynychwyd a chanllaw ar gyfer pob practis i gasglu gwybodaeth yn yr un ffordd. Nid yw adroddiadau ar apwyntiadau na fynychwyd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG yn gywir. Mae angen i ni sicrhau dulliau rheoli cofnodion da yn ymarferol.

Yn flaenorol, rydym wedi cyhoeddi canllawiau ar reoli apwyntiadau na fynychwyd (i'w gweld yma). Rydym yn cytuno bod dulliau rheoli cofnodion da yn ymarferol yn angenrheidiol, a bydd casglu'r rhif GIG yn galluogi llwybrau cleifion i gael eu monitro yn y dyfodol.

Ai'r practisau sy'n gyfrifol am gyfraddau'r apwyntiadau na fynychwyd? Mae angen iddynt sicrhau bod pob ffordd bosibl yn cael ei defnyddio i sicrhau bod y claf yn mynychu'r apwyntiad a'i fod yn cael ei gofnodi mewn cofnodion.

Cywir. Y practisau sy'n gyfrifol am reoli cleifion. Fodd bynnag, mae'r holl asiantaethau'n awyddus i gydweithio i leihau nifer yr apwyntiadau na fynychwyd.

Deintyddion sylfaen

A yw'r un egwyddor ar gyfer 22/23 yn berthnasol ar gyfer 23/24?

Mae'r mater hwn wedi'i gynnwys yn y canllaw ar gyfer rheoli diwedd blwyddyn 2022/23.

A fydd cleifion hanesyddol deintyddion sylfaen yn cyfrif tuag at darged y contract? Sut y bydd gweithgaredd deintyddion sylfaen yn cyfrannu at y contract cyffredinol yn ymarferol.

Mae'r mater hwn wedi'i gynnwys yn y canllawiau ar gyfer rheoli diwedd blwyddyn 2022/23.

Metrigau

Cyffredinol

Os yw practisau'n methu â chyrraedd targed, fel cleifion newydd, a ellir cymryd hyn ar ei deilyngdod ei hunan yn hytrach na bod yn rhaid methu mesurau eraill i warantu camau gweithredu gan y Bwrdd Iechyd?

Rydym wedi cyflwyno canllawiau diwedd blwyddyn i'r Byrddau Iechyd i'w cefnogi yn y trafodaethau hyn.

A yw'n bosibl cymhwyso'r fformiwla lliniaru dim ond os yw practis yn cyrraedd cyfartaledd y Bwrdd Iechyd neu'r cyfartaledd cenedlaethol (pa un bynnag sydd fwyaf) ar gyfer gwaith mewn labordai?

Rydym wedi cyflwyno canllawiau diwedd blwyddyn sy'n cwmpasu'r pwynt hwn.

Farnais Fflworid

A fydd y plentyn o dan rif Farnais Fflworid coch/melyn 3 yn cael ei gynnwys yn y ffigur byd-eang ar gyfer plant, neu a fydd yn fetrig ar wahân?

Mae'r targed Farnais Fflworid o 80% (gyda goddefiad o 5%) ar gyfer pob plentyn sydd â risgiau ac anghenion ACORN fel y'u disgrifiwyd yn yr ohebiaeth flaenorol ynghylch metrigau. (Nid targed o 80% ar wahân ar gyfer y grwpiau oedran o dan 3 a 3-17).

Mae rhai practisau'n canfod yr elfennau ymarferol o gyflawni'r metrig ar gyfer rhoi farnais fflworid i blant o dan 3 oed yn heriol iawn mewn lleoliadau clinigol. A fydd y metrig coch/melyn farnais fflworid 0-3 yn cael ei gyfeirio i'w adfachu eleni?

Rydym eisoes wedi ystyried lefel y goddefiad i blant nad ydynt yn cydweithredu neu'n gwrthod farnais fflworid.

Geiriad anghyson yn y ddogfen – e.e. sut y disgrifir y metrigau UDA a farnais fflworid: 80% yw'r targed gyda goddefiad o 5%.

- A yw hwn yn un mesur ar gyfer plant ac oedolion, neu a ydynt ar wahân a bydd eu cyflawniad yn cael ei ystyried ar wahân fel mewn blynyddoedd blaenorol?
- Dylai practisau fod yn ymwybodol y bydd angen nodiadau/dogfennau cadarn arnynt pan na fydd claf sy'n blentyn wedi derbyn farnais fflworid h.y. yr un wythnos yn yr ysgol, y rhiant yn gwrthod, ac ati.

Ar wahân a bydd y cyflawniad yn cael ei ystyried ar wahân fel mewn blynyddoedd blaenorol. Dyrennir gwerth blynyddol y contract i fetrig farnais fflworid gyda rhaniad 50/50.

Cleifion newydd/brys

A oes yn rhaid i glaf brys fod yn newydd i'r practis neu a fyddai hyn yn gallu cynnwys cleifion hanesyddol?

Mae angen i'r claf fod yn newydd i'r practis i gyfri fel claf newydd brys. Byddem yn disgwyl i bractisau ddarparu gofal i gleifion hanesyddol sydd wedi cwblhau cwrs o driniaeth yn ystod y 4 mlynedd diwethaf.

Beth a olygir wrth driniaeth ddiffiniol? A yw triniaeth ddiffiniol 'frys' yn cael ei nodi fel band brys neu fand 2 neu 3? A yw'n benodol i'r mater brys yn unig neu gwrs llawn o driniaeth?

Mae hyn yn cyfeirio at ddarparu'r driniaeth briodol er mwyn mynd i'r afael ag achos penodol problem claf.

Gallai bod risg i Fyrddau Iechyd or-gomisiynu. Gan ddibynnu ar nifer y practisau sy'n optio i mewn, pa ddisgresiwn sydd gan y Byrddau Iechyd mewn perthynas â nifer y cleifion brys?

Dyma'r rheswm pam mae'r metrigau wedi newid ar gyfer 2023/24, mewn ymateb i'r adborth o fewn y flwyddyn dysgu gweithredol gyntaf hon.

Mae peth anghysondeb yn y ddogfen rhwng 'claf newydd brys' a 'claf brys newydd'. Lle y dywed 'targed cleifion newydd', a ddylai ddarllen 'targed cleifion brys newydd'?

Beth yw'r diffiniad cywir? 'Apwyntiadau' ac nid 'cwrs o driniaeth'?

Mae claf brys yn rhywun nad yw'n glaf hanesyddol a bydd yn cael ei ddefnyddio yn erbyn y cyfrif cleifion brys. Os ydynt yn dychwelyd am archwiliad llawn a chwrs o driniaeth, yna byddant yn cyfrif fel claf newydd ychwanegol.

A allwch gadarnhau nad oes disgwyl i bractisau dderbyn claf brys newydd ar gyfer gofal parhaus os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny? Beth sy'n digwydd i'r claf brys newydd yn dilyn triniaeth 'ddiffiniol'?

Dyma eich rhyddid clinigol, fel yr amlygwyd yn yr ateb uchod.

Yn ddelfrydol, dylai'r geiriad annog practisau i weithio gyda Byrddau Iechyd gan nad yw'r rhan fwyaf o'r practisau diwygio'r contract yn gallu cyflawni targed brys ar eu pennau eu hunain.

Roedd hyn o fewn y canllaw diwygio'r contract a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2022.

A yw'r Byrddau Iechyd yn gallu dyfeisio eu cymhareb eu hunain ar gleifion newydd/brys fesul practis, ar sail gwybodaeth leol?

Mae gwybodaeth leol wedi dangos na ellir llenwi lleoedd mewn rhai bractisau o'r rhestr aros, oherwydd y diffyg galw am ofal parhaus. Fodd bynnag, yn yr ardaloedd hyn, mae cyfran sylweddol o gleifion sy'n ceisio gofal brys yn unig. Dylai fod gan Fyrdau Iechyd y gallu i "gomisiynu/diwygio'r cais" yn lleol, gan ddibynnu ar yr anghenion â thystiolaeth yn y practis hwnnw neu boblogaeth yr ardal.

Gall Byrddau Iechyd gomisiynu neu ddarparu gwasanaethau deintyddol mewn gwahanol ffyrdd i fodloni anghenion gofal deintyddol poblogaeth leol. Dylai'r Byrddau ystyried anghenion iechyd y geg lleol a deall y gwahanol fathau o alw am ofal a gwaith deintyddol mewn practisau yn yr ardal er mwyn darparu'r gwasanaeth priodol. O'r herwydd, mae comisiynu lleol hyblyg o fewn ysbryd y gwaith o ddiwygio gwasanaethau deintyddol yng Nghymru. Fodd bynnag, gallai hyn arwain at yr angen i'r Byrddau Iechyd nodi gweithgaredd â llaw.

A fydd angen archwiliad ar glaf brys newydd, ond dim asesiad ACORN, a thriniaeth ddiffiniol i gyfrif tuag at y targed cleifion newydd (mae diffiniol yn golygu hyd at 2 apwyntiad brys i ddarparu cwrs llawn o driniaeth frys)? Gallai'r gair 'archwiliad' arwain at beth penbleth mewn practisau.

Rydym yn cydnabod bod y gair 'archwiliad' wedi peri peth penbleth ac, yn y cyd-destun hwn, mae'n cyfeirio at asesiad o'r gŵyn frys a gyflwynir.

Cleifion hanesyddol

Mae'n ymddangos bod anghysondeb rhwng y ffigurau cleifion hanesyddol ar eDEN o gymharu â'r ffigurau a gasglwyd gan bractisau deintyddol. A allwch chi awgrymu rhesymau posibl dros yr anghysondeb hwn?

Yr unig ffigurau cywir ar gyfer rheoli'r contract yw'r rheini a gynhyrchir gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG.

Os oes gwahaniaeth rhwng y data a gedwir gan y System Rheoli Practisau Deintyddol ac eDEN, yna:

- Defnyddiwch eDEN i lawrlwytho rhestr o 'ddata metrig cleifion'; gellir canfod hwn ar ochr chwith eich dashfwrdd cyflenwr.
- Defnyddiwch y rhestr o ddata fetrig cleifion i amlygu'r anghysondebau rhwng eDEN a'ch System Reoli.
- Tra bo anghysondebau'n cael eu nodi, er enghraifft oherwydd camgymeriad ymgeisio, cysonwch eich ceisiadau yn erbyn y rheini yn Compass. I gael rhagor o wybodaeth am ddiwygio eich ceisiadau, darllenwch eich canllaw meddalwedd.

Gall ffigurau ymddangos yn wahanol ar eDEN am sawl rheswm, er enghraifft:

- 9179 o ddangosyddion ddim yn cael eu ticio ar geisiadau ACORN
- Mae cais wedi'i gyflwyno a'i ddiwygio cyn amserlennu
- Camgymeriadau ar weithgaredd cais FP17W ddim yn ymddangos mewn cyfansymiau oherwydd gwrthodiad

Ar ôl dilyn y cyngor uchod, dylid codi unrhyw anghysondebau sy'n weddill gyda'r Awdurdod Gwasanaethau Busnes i gael cymorth ac arweiniad.

Pa gymorth sydd ar gael i bractisau ag anghenion uchel sy'n galw cleifion yn ôl pob 3 mis o gymharu â phractisau sydd â llai o angen sydd ond yn gorfod gweld eu cleifion pob 12 mis?

Dyma ysbryd y lliniaru o fewn y canllaw diwedd y flwyddyn.

Canllaw diwedd y flwyddyn

Beth yw ymyriad?

Ymyriad yw'r hyn a gofnodir ar y FP17W fel rhan o'r gyfres o ddata clinigol, e.e. byddai tynnu 2 ddant yn cyfri fel 2 ymyriad; byddai 1 set o ddannedd gosod yn cyfri fel 1 ymyriad, ni waeth faint yw nifer y dannedd. Mae'r rhestr o ymyriadau wedi'i chynnwys yn nogfen ganllaw diwedd y flwyddyn 2022/23.

Cyfrifoldeb/hyblygrwydd y Bwrdd Iechyd

A oes gan Fyrddau Iechyd hyblygrwydd yn y cyfnod interim o ran sut y maent yn rheoli perfformiad yn erbyn y metrigau?

Er bod metrigau cenedlaethol a chanllawiau diwedd y flwyddyn yn darparu dull cyffredin i Gymru, gall Byrddau Iechyd ddefnyddio amrywiaeth o ffactorau lleol (gan gynnwys cynaliadwyedd gwasanaethau) i sicrhau bod gwasanaethau deintyddol yn parhau i gael eu darparu i'w poblogaeth leol. Anogwyd practisau i gysylltu â'u tîm contractau Byrddau Iechyd lleol drwy gydol y cyfnod interim hwn i drafod unrhyw faterion penodol.

A fydd gan Fyrddau Iechyd fwy o hyblygrwydd yn y system ddeintyddol newydd o gymharu â'r system UDA?

Bydd. Bydd comisiynu lleol neu ddarparu gwasanaethau mewn modd arloesol yn cael ei annog i ateb anghenion y boblogaeth leol. Bydd hyn yn ffurfio rhan o'r trafodaethau o gwmpas y newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol a fyddai'n hwyluso gwaith comisiynu arloesol lleol.

Pam na ellir diystyru adfachu yn llawn yn y cyfnod interim cyn i'r contract newydd gael ei weithredu ym mis Ebrill 2024?

Mae'r Byrddau Iechyd yn gyfrifol am ddarparu gofal deintyddol. Mae gan y Byrddau Iechyd hefyd gyfrifoldeb ariannol i sicrhau eu bod yn sicrhau'r gwerth gorau posibl o arian y trethdalwyr a fuddsoddir yn neintyddiaeth y GIG. Mae'r dystiolaeth yn glir bod mynediad a gweithgareddau'n gostwng yn sylweddol os yw contractwyr deintyddol y GIG yn cael eu talu'r gwerth contract blynyddol heb unrhyw ddisgwyliad o ran nifer y cleifion neu'r gweithgareddau.

Y contract deintyddol newydd

A yw'r gwaith contract newydd wedi dechrau?

Do, dechreuodd hyn ym mis Ebrill 2022. Mae'r tîm cyfreithiol yn adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol a rheoliadau'r GIG. Bydd angen adolygiad llawn o'r dogfennau hyn sy'n bodoli eisoes ar gyfer y contract newydd.

A fydd y contract deintyddol newydd yn blaenoriaethu darparu gwasanaethau ar sail anghenion y cleifion gyda'r bwriad o leihau anghydraddoldebau iechyd y geg?

Bydd. Bydd y contract deintyddol newydd yn annog deiliaid contract deintyddol y GIG i flaenoriaethu, gweld a thrin cleifion y mae angen gofal deintyddol arnynt gyda'r amcan cyffredinol o leihau anghydraddoldebau iechyd y geg. Mae hyn hefyd yn ofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol bod cyrff cyhoeddus, wrth wneud penderfyniadau strategol, fel 'pennu blaenoriaethau ac amcanion', yn ystyried sut y gallai eu penderfyniadau gynorthwyo i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae'r Ymateb Iechyd y Geg i 'Cymru Iachach' ac Ymchwiliadau Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd ar Ddeintyddiaeth hefyd yn canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau iechyd y geg.

Sut y bydd ansawdd yn cael ei gynnwys yn y contract newydd?

- Monitro
- Dyletswydd didwylledd a dyletswydd ansawdd
- Bydd data ACORN ynghyd â rhifau'r GIG yn cynorthwyo practisau a Byrddau Iechyd i olrhain canlyniadau eu poblogaeth o gleifion.

A fydd y contract newydd ar waith yn bendant erbyn mis Ebrill 2024?

Mae gweithredu contract newydd yn dibynnu ar gwblhau'r cyfnod negodi gyda'r cynrychiolwyr proffesiynol a chwblhau'r newidiadau deddfwriaethol gofynnol. Er y dymunir i'r contract newydd gael ei gyflawni'n gynnar, mae'n ddibynnol ar y camau hanfodol hyn, sy'n cyflwyno cyfyngiadau amser a gallent oedi ei weithrediad.